

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar y 24^{ain} o Dachwedd 2020 am 5.00pm

Yn bresennol yn y cyfarfod:

Pwyllgor Ieuenctid: Phoenix aka Ash (8.5/8.3), Habeba (7.5/9.5), Matt (I.T. issues), Jazz (7/9), Sara H (8/8.5)

Staff: Suzanne (9/9.5), Tom (8.5/8.87), Graham (8),

Ymddiheuriadau: Libby, Adam

Materion a Drafodwyd

Eitem Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	Croeso a chyflwyniadau / Mewngofnodi ac allangofnodi fel uchod mewn cromfachau.	
2	Diweddariad APCAP: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd Graham y bydd Castell Caeriw a Chastell Henllys ar gau tan y Flwyddyn Newydd.Roedd y staff cadwraeth yn brysur yn cyflawni gwaith ymarferol yn yr awyr agored.Roedd y Parcmynd Ieuenctid wedi bod allan yn plygu perthi ger y rhodfa ar lan yr afon yn Hwlfordd, a'r sesiwn nesaf byddant yn plannu coed.	
3	Diweddariad Ieuenctid: <ul style="list-style-type: none">Dywedodd Suzanne bod Banc Ieuenctid Sir Benfro wedi cyfarfod dydd Iau diwethaf ac wedi pleidleisio ar y rownd o geisiadau llwyddiannus i'r Banc Ieuenctid, a phleser ganddi oedd cyhoeddi bod y cais a gyflwynwyd gan Libby ar ran y pwyllgor wedi'i gymeradwyo ac y bydd y Banc Ieuenctid yn cyflwyno sic eiddo o £1000. Roedd panel y Banc Ieuenctid yn hoff o'r modd yr oedd y cais yn cysylltu â meini prawf carbon isel Cymru, iechyd meddwl a llesiant y gymuned, a hefyd yn enghraifft dda o brosiect a arweinir gan bobl ifainc.	Tom i ddiweddarau'r Pwyllgor Ieuenctid ar lwyddiant y cais am gymorth ariannol, a'r Pwyllgor Ieuenctid i glustnodi'r camau nesaf o ran llwyddo i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.
4	Prosiect Animeiddio <ul style="list-style-type: none">Roedd Matt a Libby wedi cyflawni cryn dipyn ar eu ffilmiau animeiddio.Codwyd pryderon ynghylch diffyg amser gan aelodau ifancach y grŵp sy'n fyfyrwyr ysgol/coleg. Roedd gwaith ysgol/coleg yn mynd â llawr iawn o amser aelodau'r pwyllgor gan ei gwneud yn anodd iddynt gael amser rhydd i weithio ar brosiectau eraill ac ati.Roedd Habeba yn ymwybodol ei bod wedi colli sawl cyfarfod, ond roedd Tom wedi sicrhau Habeba nad oedd hyn yn broblem.	Tom i gysylltu ag aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid yn unigol i weld beth yw eu sefyllfa o ran amser rhydd ac ati Y Pwyllgor Ieuenctid i drafod y camau nesaf yn y cyfarfod nesaf.

	<ul style="list-style-type: none"> Roedd gan Jazz, oedd wedi neilltuo’i holl amser ar waith ysgol, bellach ag amser rhydd, a bydd yn cysylltu â Pheonix aka Ash a Rory i geisio mynd ati i weithio ar y ffilm. Pheonix aka Ash i adrodd yn ôl i Tom yn y diwrnodau nesaf yma i roi diweddariad ar yr hyn a gyflawnwyd. Holodd Tom: A allwn gael y Prosiect Animeiddio wedi’i gwblhau? Gallwn/Na allwn Os gallwn, erbyn pryd? Oherwydd absenoldeb rhai o aelodau’r grŵp, cytunwyd i aros tan y cyfarfod nesaf er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth fel grŵp cyfan. 	
5	Cyfnod y Nadolig <ul style="list-style-type: none"> Holodd Tom a fyddai unrhyw un yn dymuno cyfarfod dros gyfnod y Nadolig. Habeba NA, Jazz a Pheonix aka Ash ag amser rhydd ac yn croesawu cael cyfarfod. 	Tom i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor leuenctid yn unigol i weld beth yw eu sefyllfa o ran amser rhydd ac ati
6	Cadw mewn Cysylltiad <ul style="list-style-type: none"> Cytunodd Tom i gysylltu â phob aelod yn unigol i rannu’r sefyllfa ddiweddaraf cyn y cyfarfod nesaf. 	Tom i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor leuenctid yn unigol i weld beth yw eu sefyllfa o ran amser rhydd ac ati
7	Basecamp <ul style="list-style-type: none"> Tom i ail-anfon y ddolen gyswllt at bob aelod. 	Tom i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor leuenctid
8	Digwyddiad y Nadolig <ul style="list-style-type: none"> Cyfle i gynnal digwyddiad yn yr awyr agored. Sara Hoss wedi cynnig lleoliad (dim toiledau ar gael). Tom i drafod beth fyddai dymuniad pob aelod pan fydd yn cysylltu â hwy. 	Tom i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor leuenctid
9	Unrhyw fater arall <ul style="list-style-type: none"> Holodd Jazz a allai hi ddefnyddio’i gwaith gwirfoddoli gyda’r pwyllgor fel gwaith gwirfoddol ar gyfer gwobr Dug Caeredin. Rhoddodd Suzanne ddiweddariad, a Jazz a Phoenix aka Ash i gysylltu â Tom. Hyfforddiant / Dysgu sgiliau newydd – holodd Tom a fyddai’r aelodau yn dymuno datblygu sgiliau newydd ar redeg pwyllgor. Barnai’r aelodau y byddai hynny’n ddefnyddiol iddynt. 	https://www.dofe.org/do/ Tom i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor leuenctid yn unigol i weld beth yw eu sefyllfa o ran amser rhydd ac ati
	Dyddiad y cyfarfodydd nesaf: 8 Ragfyr 5pm – Fforwm Arfordir Sir Benfro - Gweithdy cardiau CCAT Dyddiadau Ionawr i’w pennu yn dilyn trafod gydag aelodau’r Pwyllgor leuenctid / cysylltu â’r Cynulliad leuenctid i sicrhau nad yw’r dyddiadau yn cyd-daro â’u cyfarfodydd hwy.	Tom i gysylltu ag aelodau’r Pwyllgor leuenctid yn unigol i weld beth yw eu sefyllfa o ran amser rhydd ac ati
	Daeth y cyfarfod i ben am 18:30	

